# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3, CANOLFAN DDINESIG, ABERTAWE DYDD MERCHER, 13 GORFFENNAF 2016 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL:** Bu'r Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J P Curtice | C R Doyle | M Lewis |
| H M Morris | R V Smith | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Paul Relf | Arweinydd y Tîm Cyllid Ewropeaidd ac Allanol |
| Nick Williams | Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Dysgwyr |
| Mike Jones | Pennaeth yr Uned Systemau Rheoli |
| Gareth Borsden | Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd J A Raynor - Aelod y Cabinet dros Addysg (Cofnod 15 yn unig)

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: C R Evans a C Thomas

## 10 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 11 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2016 yn gofnod cywir, yn amodol ar ychwanegu, "Amlinellodd yr aelodau bwysigrwydd sicrhau bod cyrsiau sy'n cynnwys sgiliau ymarferol ar gael ac yn cael eu hehangu ac y dylid ystyried y rhain yn gydradd â chymwysterau academaidd," at baragraff olaf Cofnod 8.

## 12 PROSIECTAU EWROPEAIDD

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Cyllid Ewropeaidd ac Allanol gefndir i sail a chylch y cyllid ar gyfer cynlluniau sy'n derbyn cymorth grant o Ewrop.

Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am oblygiadau ariannol posib y bleidlais i adael Ewrop i gynlluniau a ariennir gan Ewrop, yn enwedig y Prosiect Cynnydd presennol y mae gan yr Adran Addysg gysylltiad sylweddol ag ef.

Bydd y goblygiadau ariannol a'r cyfnod y bydd prosiectau'n para'n dibynnu ar bryd y bydd y llywodraeth yn rhoi Erthygl 50 ar waith. Y tebygolrwydd yw y caiff hyd y cynllun ei gwtogi; bydd y cyllid ar gael o hyd, ond am lai o amser.

Nododd nodau'r prosiect, a lunnir i fodloni gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop drwy leihau nifer y bobl sy'n mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) rhwng 11 a 24 oed. Caiff y cynllun ei ddatblygu i helpu i glustnodi cymorth penodol i bobl ifanc ar sail unigol, yn hytrach nag un ymagwedd gyffredinol. Gobeithir y bydd y cynllun yn dechrau'n llawn ym mis Medi 2016, ar ôl oediad oherwydd etholiadau diweddar Llywodraeth Cymru a'r refferendwm ar yr UE.

Amlinellodd fod gan brosiect Cynnydd gyllid o £2.4m sy'n cael ei ddosbarthu ar draws 5 awdurdod lleol.

Hefyd, amlinellodd ddatblygiad prosiect newydd Cam Nesaf, sy'n cael ei arwain gan Gyngor Sir Benfro ac a fydd yn ceisio darparu amrywiaeth o weithgareddau dysgu a hyfforddi ychwanegol i gynnwys pobl rhwng 16 a 24 oed, mewn ymdrech i leihau diweithdra ieuenctid a nifer y bobl NEET.

Trafododd yr aelodau'r angen am fesurau monitro a diogelu priodol o ran y gwariant ar brosiect Cynnydd. Awgrymodd y swyddog y gallai adrodd yn ôl am gynnydd y cynllun mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a chyflwyno adroddiad monitro i PCC yn y flwyddyn newydd.

## 13 **MATERION CYFREITHIOL - EOTAS**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cefnogi Dysgwyr yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y materion cyfreithiol a'r arweiniad sy'n gysylltiedig â darpariaeth EOTAS yr awdurdod.

Rhoddodd amlinelliad cryno o'r ddarpariaeth EOTAS bresennol i bobl ifanc rhwng 4 oed ac 16 oed yn y cyfleusterau amrywiol ar draws Abertawe.

Cyfeiriodd at ddogfen arweiniol Llywodraeth Cymru – 203/2016 "Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion", sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys rôl yr awdurdod lleol, rôl ysgolion, darpariaeth anghenion arbennig, gwahardd disgyblion, salwch disgyblion, tiwtora gartref, polisi disgyblion o leiafrifoedd ethnig, amddiffyn plant a systemau atal.

Awgrymodd y byddai dolen electronig i ddogfen gyfan Llywodraeth Cymru'n cael ei hanfon at yr aelodau ar ôl y cyfarfod a byddai'n hapus i ddod i gyfarfod PCC eto petai angen mwy o wybodaeth neu'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr aelodau.

**CYTUNWYD** i gofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

14 **PROFFIL ASESU BOD YN AGORED I NIWED (PABAN)**

Cyflwynodd Pennaeth yr Uned Systemau Rheoli'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddata PABAN.

Amlinellodd y cefndir i sefydlu'r data ac awgrymodd y dylid sgorio disgyblion ar 14 maen prawf gwahanol, sy'n arwain at sgôr gwyrdd, oren neu goch.

Aeth ati i nodi a dosbarthu'r ymatebion a gafwyd gan benaethiaid ar ddefnyddio'r data, ar ôl arolwg diweddar.

Aeth ati hefyd i amlinellu a dosbarthu'r prif welliannau arfaethedig ar gyfer fersiwn o PABAN sydd wedi'i diwygio a'i diweddaru ar gyfer 2017.

Trafodwyd y prif newidiadau a’r diwygiadau arfaethedig i gyd gan yr aelodau, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- Cofnodi pedwar angen (un ar hyn o bryd) ar gyfer disgyblion AAA
- Cynnwys canlyniadau profion cenedlaethol Cymru
- Cynnwys defnydd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Datblygu meini prawf ymyriad ychwanegol newydd sy'n cael eu treialu mewn nifer bach o ysgolion uwchradd ar hyn o bryd. Byddai'r rhain yn cael eu defnyddio ar y cyd â'r sgôr PABAN er mwyn nodi anghenion ymyriad yn well
- Hyfforddiant mwy ffurfiol ar gyfer ysgolion.

Mynegodd yr aelodau eu siom o ran amharodrwydd ysgolion i ymateb i'r arolygon ar ddefnyddio data PABAN a'r amharodrwydd canfyddedig i rannu arfer da a syniadau, er mwyn amddiffyn eu cyflawniadau unigol eu hunain.

Amlinellwyd hefyd y modd y defnyddir y data gan ymarferwyr proffesiynol yn yr adran, yn ogystal â chywirdeb a mesurau monitro/adolygu'r data gan yr uned.

Cyfeiriodd at y mater a godwyd yn y cyfarfod blaenorol, sef y data PABAN coll ar gyfer disgyblion Coleg Gŵyr, nododd y rhesymau dros hynny, gan sicrhau'r aelodau fod y mater wedi'i ddatrys.

Amlinellodd hefyd y cysylltiadau rhwng Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau y llunnir cofnod mor gyflawn â phosib ar gyfer pob disgybl. Byddai gwelliannau technolegol eraill yn cynorthwyo'r broses hon yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a roddwyd.

15 **CYNLLUN GWAITH.**

Trafododd yr aelodau rhaglen waith ddrafft y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi'r rhaglen waith, yn amodol ar ychwanegu'r canlynol:

- Trefnu ymweliad â safle Ysgol Pentrehafod yn ystod y tymor ysgol newydd.
- Ychwanegu adborth ar gynnydd prosiect Cynnydd yn y flwyddyn newydd.
- Gwahodd swyddogion o'r Tîm Troseddau Ieuenctid i gyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 pm

**CADEIRYDD**